



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL

Cofnodion o gyfarfod rhithwir o'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd Dydd Llun, 21
Medi 2020 am 10.00 am

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Bwrdd Rhianta Corfforaethol Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd C Leyshon (Cadeirydd)

Y Cynghorydd J Rosser Y Cynghorydd E Griffiths

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

Ms C Miles, Cyfreithiwr Gofal Plant

Ms A Lloyd, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant

Ms C Jones, Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant

Ms J Thomas, Rheolwr Gwella'r Gwasanaeth, Ymgysylltu a Chwynion

Ms E Brabon, Uwch Gydlynwyr Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth

Ms Z Lancelott, Pennaeth Materion Llesiant a Chydnerthedd y Gymuned

Mr A Bowden, Gydlynwyr Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth

Mr C Dunn (Fforwm RhCT)

Ms S Power (Fforwm RhCT)

1 Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod rhithwir a chafwyd ymddiheuriadau gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G Hopkins, R Yeo, S Rees-Owen a J James.

2 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

3 Cofnodion

PENDERFYNODD yr Aelodau Gadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar 30 Gorffennaf 2020 yn rhai cywir.

- Cofnod 50 - dylai pwynt 3 o'r Penderfyniad nodi '*Derbyn gwybodaeth bellach mewn perthynas â'r strategaeth i wella data deilliant ar gyfer pobl sy'n agored i niwed.*'

4 Rhaglen Waith y Bwrdd Rhianta Corfforaethol 2020-21

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol adroddiad i'r

Bwrdd Rhianta Corfforaethol sy'n amlinellu'r rhaglen waith (drafft) ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2020/2021. Esboniodd y swyddog fod y rhaglen yn ddull defnyddiol o reoli llwyth gwaith y Bwrdd, mae'r adroddiad yn ddogfen sy'n newid o hyd ac mae modd ei diwygio trwy gydol y flwyddyn i adlewyrchu unrhyw flaenoriaethau sydd gan y Bwrdd.

Nododd Aelodau na fydd yr Ymweliadau Rheng Flaen yn cael eu cynnal eleni o ganlyniad i fesurau cadw pellter cymdeithasol Covid-19, **PENDERFYNWYD** nodi'r newid yma.

5 Rhaglenni Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal

Rhannodd yr Uwch Gydlynnydd Materion Addysg, Cyflogaeth, a Hyfforddiant y newyddion diweddaraf mewn perthynas â rhaglenni penodol y Cyngor ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, unigolion sy'n gadael gofal a'r rheiny sydd ag anghenion gofal a chymorth i gael mynediad i fyd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant a chefnogi'r broses o symud i fyw'n annibynnol.

Cafodd y Bwrdd Rhianta Corfforaethol gyfle i weld dadansoddiad o'r deilliannau mewn perthynas â'r Cynlluniau Camu i'r Cyfeiriad Cywir, GofaliWaith ac ArlwyoiWaith rhwng Ebrill 2019 - Mawrth 2020.

Aeth y Swyddog ymlaen i drafod misoedd heriol y mae'r gwasanaeth wedi'u hwynebu o ganlyniad i bandemig Covid-19. Roedd yr Aelodau'n falch o nodi bod sawl llwyddiant wedi bod, er gwaetha'r cyfnod heriol a bod swyddogion wedi ymgysylltu â phobl ifainc gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy gynnal clwb swyddi rhithwir. Cafodd Aelodau gyfle i weld fideo o berson ifanc yn trafod ei brofiad o fynychu'r clwb swyddi rhithwir.

Daeth y Swyddog â'i gyflwyniad i ben trwy roi gwybod i'r Bwrdd bod Uwch Arweinwyr y Cyngor wedi penderfynu ariannu 3 hyfforddai ychwanegol er mwyn iddyn nhw gael manteisio ar y rhaglen.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am yr adroddiad gan ganmol y person ifanc am gyflwyno'r fideo.

Adleisiodd yr Aelodau sylwadau'r Cadeirydd mewn perthynas â'r person ifanc, gan gytuno bod clywed straeon personol y bobl ifainc yn werthfawr iawn.

Cwestiynodd un Aelod pam bod mwy o leoliadau na hyfforddeion ac eglurwyd bod pobl ifanc weithiau'n newid eu meddwl ac yn penderfynu nad yw cwrs penodol yn addas ar eu cyfer mwyach ond maen nhw'n cael cyfle i roi cynnig ar amrywiaeth o leoliadau gwahanol.

Nododd Aelod arall bod 19 o'r 58 atgyfeiriad ar gyfer y Rhaglen GofaliWaith heb gofrestru, aeth ati i gwestiynu'r broses. Esboniwyd nad oedd y bobl ifanc mewn sefyllfa i ymgysylltu'n llawn ar adeg cofrestru ond cafodd yr Aelodau sicrwydd y byddai'r swyddogion yn parhau i drafod y mater gyda nhw.

PENDERFYNODD y Bwrdd Rhianta Corfforaethol nodi'r diweddariad.

6 Fforwm RhCT

Rhannodd Fforwm RhCT grynodedb o'r gwaith wedi'i gyflawni rhwng Ebrill 2019 - Mawrth 2020 â'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol.

Dysgodd yr aelodau bod y Fforwm wedi ymgysylltu â 32 o blant a phobl ifainc sy'n derbyn gofal yn RhCT yn ystod y Flwyddyn Ariannol.

Cafodd y Bwrdd Rhianta Corfforaethol wybod bod sesiynau misol fforwm RhCT yn canolbwyntio ar dri phrif faes:

- Datblygu adnoddau gwybodaeth gan bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal;
- Ymgymryd â hyfforddiant i ddod yn fentoriaid cyfoed sy'n cyflwyno hyfforddiant lles a hunanofal i'w cyfoedion;
- Cynllun ysgrifennu creadigol sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl.

Roedd yr aelodau'n falch iawn o allu siarad â Swyddog Datblygu'r Grŵp, a oedd wedi cyflawni hyfforddiant Glasbrint a sydd bellach yn aelod o staff llawn amser, mae hyn yn cynnig enghraifft o lwyddiant i'r bobl fainc. Yn ogystal â hynny, clywodd yr Aelodau gan berson ifanc o Fforwm RhCT. Rhannodd ei phrofiad hi o gymryd rhan yn y prosiectau â'r Bwrdd, roedd y profiad yma wedi rhoi cyfle iddi siarad â phobl ifainc eraill sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Roedd Aelodau'n hapus i glywed am y prosiectau cyffrous a gyflawnwyd gan y bobl ifanc, roedd ganddynt ddi-ddordeb arbennig yn y prosiect 'Listen to Thrive', sy'n cynnig cyfle i bobl ifanc wneud cyflwyniadau ar faterion iechyd meddwl. Esboniwyd bod gwaith wedi'i gyflawni ar y cyd â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r goblygiadau iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â diwedd y cyfyngiadau symud a bod VFCC yn parhau i lobïo hyn gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Cafodd y Bwrdd wybod bod y gofal a dderbyniodd pobl ifanc wedi helpu i lunio'r Cynllun Strategol 19-23 Voices from Care Cymru, a oedd yn cynnwys y meysydd blaenoriaeth ar gyfer newid canlynol:

- Iechyd Meddwl - roedd hyn yn gais allweddol gan y bobl ifainc, roedden nhw o'r farn y byddai cymorth iechyd meddwl yn hanfodol mewn cyfnod lle mae unigolion yn teimlo'n unig iawn oherwydd Covid-19;
- Perthynas â brodyr neu chwiorydd;
- Pwysigrwydd sefydlogrwydd;
- Pwysigrwydd o deimlo cariad; a
- Chwalu'r stigma.

Wrth drafod eu profiad o'r Cyfyngiadau Symud a Covid-19, cafodd y Bwrdd wybod bod Fforwm RhCT wedi dechrau defnyddio dulliau digidol, yn debyg i nifer o wasanaethau eraill. Roedd hi'n hyfryd clywed bod y grwpiau wedi cynnal sawl achlysur ymgysylltu yn ogystal ag achlysuron rhithwir er mwyn cymdeithasu, megis cwisiau a ioga i sicrhau bod pawb yn cadw mewn cysylltiad yn ystod yr amser heriol yma.

Dysgodd Aelodau y bydd y Fforwm yn parhau i gysylltu â'i gilydd ac maen nhw'n edrych ymlaen at gynnal achlysur Calan Gaeaf gyda gwisg ffansi a chwis. Yn ogystal â hynny, cafodd holiadur Covid-19 ei lunio i sicrhau bod gan y bobl ifanc y cymorth sydd ei angen. Esboniwyd y byddai cysylltu â phlant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion a defnyddio'r dechnoleg sydd ar gael yn faes allweddol wrth symud ymlaen.

Roedd y Cadeirydd yn dymuno diolch i'r swyddogion a'r person ifanc am y cyflwyniad diddorol a hefyd yn dymuno llongyfarch Swyddog Datblygu'r Grŵp ar ei swydd. Roedd pob Aelod wedi cydnabod pwysigrwydd gwaith sy'n ymwneud â materion iechyd meddwl, yn enwedig yn ystod y cyfnod heriol yma.

Roedd Aelodau wedi canmol y sesiynau ysgrifennu creadigol a barddoniaeth gafodd eu cynnal i hyrwyddo iechyd meddwl gan groesawu'r cyfle i ddarllen y gwaith. Roedd yr Aelodau o'r farn y byddai'n gyfle gwych i'w gynnwys yn y pamffled.

PENDERFYNODD y Bwrdd Rhianta Corfforaethol nodi'r diweddariad.

7 Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth

Aeth Pennaeth y Gwasanaeth Llesiant a Chydnerthedd y Gymuned ati i roi cyflwyniad manwl i aelodau'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol mewn perthynas â data cyflawniad 2018-2019 ar gyfer y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth

Roedd y cyflwyniad yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â nifer yr atgyfeiriadau, y deilliannau, arfarniadau ac anghenion. Yn ogystal â hyn, rhannodd y swyddog astudiaeth achos â'r Bwrdd, sy'n amlinellu'r amcanion cychwynol ar gyfer y teulu a dadansoddiad o'r deilliannau llwyddiannus.

Aeth y Swyddog ymlaen i rannu'r newyddion diweddaraf ag Aelodau mewn perthynas â Covid-19. Dysgodd Aelodau bod y gwasanaeth wedi derbyn 300 o achosion ychwanegol yn ystod y camau cychwynol, ac er bod nifer o deuluoedd yn hapus i barhau gyda gwasanaeth rhithwir, roedd eraill wedi'i chael hi'n anodd ymdopi ac wedi penderfynu gohirio'r gwasanaeth ar hyn o bryd. Dysgodd Aelodau bod y gwasanaeth wedi parhau i ymgysylltu gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, gan ddarparu fideos cymorth rhianta ar YouTube, sydd wedi cael eu gwyllo dros 18,000 o weithiau. Rhoddodd y Swyddog wybod bod cyfarfodydd wedi'u cynnal gan ddefnyddio dull hybrid, a doedd dim achosion wedi'u gohirio ym mis Awst.

Estynnodd y Cadeirydd ddiolch i'r swyddog am y cyflwyniad manwl a **PHENDERFYNODD** y Bwrdd Rhianta Corfforaethol nodi'r diweddariad.

8 Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru

Rhannodd Ms M Davies, Tros Gynnal Plant Cymru, y newyddion diweddaraf am y cynnydd y mae Tros Gynnal Plant Cymru wedi'i wneud yn ystod y chwarter diwethaf.

Cafodd Aelodau wybod bod 29 person ifanc wedi manteisio ar wasanaethau Eiriolaeth sy'n Seiliedig ar Faterion, gan gyflwyno 46 o faterion; cafodd 19 person ifanc pellach eu hatgyfeirio ar gyfer y Cynnig Rhagweithiol. Yn ogystal â hynny, roedd pobl ifainc wedi gofyn am gymorth eiriolwr 36 o weithiau yn ystod y chwarter.

Roedd Aelodau'n falch o nodi bod pob un o'r 29 person ifanc oedd wedi manteisio ar wasanaethau Eiriolaeth sy'n Seiliedig ar Faterion wedi bod mewn cysylltiad â'u heiriolwr o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl derbyn yr atgyfeiriad.

Cafodd y Bwrdd wybod am yr heriau sydd wedi codi o ganlyniad i bandemig Covid-19. Roedd y Bwrdd yn falch o nodi bod yr eiriolwyr a'r bobl ifainc wedi

gallu addasu i ofynion y cyfarfodydd rhithwir er mwyn cynnal y berthynas rhyngddynt, er gwaetha'r holl heriau. Dysgodd Aelodau bod y bobl ifainc wedi darparu adborth cadarnhaol mewn perthynas â'r trefniadau newydd ond roedd pryderon gan yr eiriolwyr ynglŷn â phobl ifainc nad oedd ar eu pen eu hunain yn ystod eu trafodaethau.

Yn rhan o'r drafodaeth ynglŷn â gwelliannau, roedd Tros Gynnal Plant Cymru wedi cynghori bod rhai newidiadau wedi bod i'r templedi, er mwyn cynnwys astudiaethau achos a bod casglu adborth y bobl ifainc yn dilyn darparu gwasanaeth wedi bod yn broblem o hyd, ond byddai hyn yn cael ei gynnwys yn rhan o'r gwasanaeth.

Estynnodd Aelodau ddiolch i gynrychiolwyr Tros Gynnal Plant Cymru am yr adroddiad cynhwysfawr. Roedden nhw'n falch o weld sut roedd y bobl ifainc wedi ymgysylltu â'r gwasanaeth yn y sefyllfa bresennol.

Gan gyfeirio at y graffiau yn yr adroddiad, holodd un Aelod sut mae nodweddion gwarchoddedig yn cael eu cofnodi. Eglurwyd bod rhai cwestiynau wedi'u gofyn yn ystod y cyfnod atgyfeirio ond efallai bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei nodi nes ymlaen.

Gofynnodd yr Aelod am wybodaeth bellach mewn perthynas â dadansoddiad o'r demograffig a sut mae hynny'n cymharu â'r garfan. Rhoddodd Tros Gynnal Plant Cymru wybod y byddai angen cymharu data â nifer y bobl ifainc yn RhCT sy'n gymwys i dderbyn y cynnig rhagweithiol.

PENDERFYNODD yr Aelodau nodi'r diweddariad a ddarparwyd.

9 Trafod cadarnhau'r Penderfyniad isod:-

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

10 Cwsmeriaid y Gwasanaethau Cymdeithasol - Adborth, Ymgysylltu a Chwynion

Rhoddodd Rheolwr Cwynion, Ymgysylltu a Gwella Gwasanaeth grynodedig i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol o'r trefnau gweithredu ac effeithiolrwydd gweithdrefn cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mehefin 2020.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am nifer y cwynion a ddaeth i law, natur y cwynion, ac unrhyw wersi a ddysgwyd, yn ogystal â manylu ar ymholiadau gan Gynghorwyr, Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol a nifer y cwynion a ddaeth i law.

Ar ôl trafod yr adroddiad ymhellach **PENDERFYNWYD** cydnabod ei gynnwys.